
PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Llwybr Clywedog, Dolgellau

CYMEDROL




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 4km (2.6 milltir)
- Hyd: 1 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



V-20231127/2019




O'r gilfan, cerddwch am ganllath yn ôl ar hyd y ffordd i gyfeiriad Pont ar Ddibyn gan fynd heibio'r fynegbost gyntaf am Lwybr Clywedog. Byddwch yn wyliadwrus o'r traffig. Wrth yr ail fynegbost am Lwybr Clywedog, trowch i'r dde drwy giât mochyn. Byddwch yn croesi pont bren dros y ceunant.





Ymhen ychydig, fe ddowch ar draws mainc goffa Mary Richards, y botanegydd fu'n byw ym Mhlas Caerynwch ymhellach i fyny'r afon. Gall sŵn yr afon fod yn fyddarol fan hyn pan fydd llif cryf ar ôl y glaw.




Ymhellach i lawr y ceunant, mae tair craig fawr ar draws y llwybr. Grymoedd rhewlifol sy'n gyfrifol am gario'r creigiau i'r fan hyn bron 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae rhywogaethau cenedlaethol prin o gen a llysiau'r afu yn tyfu yma.




Fe ddowch maes o law at y ffordd waelod. Trowch i'r dde dros Bont Clywedog, Sylwch ar yr enwau wedi eu naddu i gerrig canllaw'r bont. Ewch heibio mynedfa'r hen felin wlân a dilynwch y ffordd serth gul gyferbyn a thŷ 'Clywedog Lodge' i fyny drwy'r coed.




Cerddwch fyny'r allt nes i chi gyrraedd cyfeirbost arall. Dilynwch y llwybr ar hyd y ceunant yn ôl at fan cychwyn y daith.